**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 12 Ionawr 2023**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Melody Chapman – Teams ar gyfer Eitemau 13a & 13b, & 14, Gareth Wynn Davies, Huw Davies (trwy Teams), John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Prys Morgan ac Emlyn Roberts |
| **Trwy Wahoddiad:** | Maria Richards (Llywodraeth Cymru) trwy Teams<br>Alison Wright (Calland Wright Consulting) trwy Teams – Eitemau 13 a 14 |
| **Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 7 & 8<br>Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)<br>Jon Parker (Pennaeth Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi)<br>Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)<br>Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corforaethol) |

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn benodol, rhoddwyd croeso cynnes i Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies, a oedd yn dychwelyd yn dilyn salwch.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd:

28 – 29 Tachwedd 2022 – Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

6 Rhagfyr 2022 – Rhith gyfarfod o Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Bolisi Masnach

7 Rhagfyr 2022 – Cyfarfod sgwrsio ar-lein HCC am yr Ardoll

Rhwydweithio ym Marchnad Da Tew y Nadolig yn Llanfair- ym-Muallt

13 Rhagfyr 2022 – Y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yn cymryd rhan mewn cyfarfod diweddaru ar-lein gyda Chymdeithas Proseswyr Cig Prydain

4 – 6 Ionawr 2023 – Y Cadeirydd a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yn mynychu Cynhadledd Ffermio Rhydychen

Parhaodd sesiynau dal-i-fyny wythnosol gyda'r Prif Weithredwr drwy Teams.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Claire Williams.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **<u>I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 17 Tachwedd 2022 (HCC 1110)</u>**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfodydd uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar y newid bach a ganlyn yn Saesneg:

Tudalen 4 – Eitem 8d – 5 Rhagfyr 2022 "Coleg Cambria, Ruthin" yn lle "Coleg Cambrian, Ruthin".

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Arian Y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP)</u>*

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ddiweddariad ar gyfer yr uchod.

Ynglŷn â mater arall, dywedwyd wrth y Bwrdd fod Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol HCC ar gyfer 2021 / 2022 yn Nhŷ'r Cwmnïau.

*<u>Adolygiad o Strwythur Pwyllgorau HCC</u>*

Roedd y gwaith hwn yn parhau.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Gweithgareddau (HCC 1111)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

b. *<u>I dderbyn adroddiad dadansoddol am yr Ymgynghoriad i Ardoll HCC (HCC 1112)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafwyd crynhoad ohono gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Roedd y papur yn cynnwys gwybodaeth am y cefndir, y cynnig, gohebiaeth HCC ynghylch yr ymarfer a gwybodaeth am yr ymatebion a gafwyd yn y cyfarfodydd agored ac ar-lein, yn ogystal â thrwy ymgysylltu â chynrychiolwyr allweddol y diwydiant.

<u>Argymhelliad</u>

Yn seiliedig ar farn y mwyafrif a fynegwyd mewn ymatebion a thrwy gyfarfodydd â'r diwydiant, gydag ond ychydig o wrthwynebiadau i'r argymhelliad Ardoll, argymhellodd y Swyddog Gweithredol y dylid

argymell cyflwyno mecanwaith ar gyfer cyfraddau Ardoll blynyddol i adlewyrchu chwyddiant blynyddol i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig. Argymhellwyd hefyd y dylid cymhwyso'r mecanwaith i gyfraddau Ardoll o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Cafwyd sicrwydd y byddai unrhyw gynnydd dilynol yn yr Ardoll gan ddefnyddio'r mecanwaith yn amodol ar y cydbwysedd a oedd eisoes ar waith ac y byddai'r Bwrdd yn craffu arno cyn ceisio cymeradwyaeth y Gweinidog.

Byddai'r cyfraddau Ardoll arfaethedig ar gyfer 2023 / 2024 ymhell o fewn y cyfraddau uchaf a ganiateir gan Fesur (Gwelliant) 2011 i Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 , a nodwyd na fyddai angen newid y terfynau am flynyddoedd lawer.

Bu'r Bwrdd yn trafod y papur a'r argymhelliad. Teimlwyd bod angen mwy o eglurder ar eiriad yr argymhelliad cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog. Câi'r diweddariad ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith yn y cyflwyniad drafft i'r Gweinidog a fyddai'n cael ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr ymlaen llaw.

Yn amodol ar y gweithredu a nodir uchod, cytunodd y Bwrdd i'r argymhelliad.

Yn ogystal:

- er mai cyfrifoldeb y Gweinidog fyddai cyfathrebu ar y cynnydd yn yr Ardoll a'r fethodoleg newydd, byddai'r Swyddog Gweithredol yn paratoi cynllun / llinellau cyfathrebu i'w cymryd cyn 1 Ebrill 2023 ar gyfer y Bwrdd.
- cytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gwrdd â'r Gweinidog i drafod yr argymhelliad yn fanylach.

**Gweithredu: Prif Weithredwr / Swyddog Gweithredol**

Diolchodd y Swyddog Gweithredol i'r Bwrdd am eu rhan yn y broses ymgysylltu, gan gynnwys presenoldeb yn y cyfarfodydd trafod.

c. *<u>Diweddariad canlyniadau Arolwg HCC o Fwriadau Ffermwyr (HCC 1113)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a'i grynhoi gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol gyda'r canfyddiadau allweddol ar gyfer cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion a mewnbynnau amaethyddol wedi'u pwysleisio yn y ddogfen.

Hefyd, amlygwyd y canlyniadau:

CANLYNIADAU:

- Mae cyfran uchel o gynhyrchwyr yn bwriadu **newid dim** ar eu cyfraddau stocio.
- Fodd bynnag, mae effeithiau posibl yr hyn a fwriedir ar gyfraddau stocio cyffredinol yn y sectorau defaid a chig eidion yn awgrymu crebachiad bach yn gyffredinol.
- O ganlyniad, efallai y gwelwn **gyfraddau difa uwch a chyfraddau cadw is** o fewn diadelloedd a buchesi cig eidion Cymru.
- Byddai hyn yn cael effaith ar faint o gig coch sy'n cyrraedd y farchnad *(yn y tymor byr ac yn y tymor hir)*.
- Dim ond mân wahaniaethau a nodwyd rhwng y math o fferm, ei maint a daearyddiaeth.
- Dywedodd llawer taw ansicrwydd o fewn y diwydiant yw'r rheswm eu bod am grebachu – gan awgrymu bod angen **mwy o eglurder** ar ffermwyr yng Nghymru.
- Dywedodd nifer o gynhyrchwyr eu bod eisoes wedi **gwella technegau pori ac wedi ail-hadu caeau glaswellt** mewn ymgais i liniaru effeithiau costau uwch.
- Mae hyn – ynghyd â dibynnu llai ar borthiant a sy'n cael ei brynu – yn awgrymu bod cynhyrchwyr yng Nghymru yn ymdrechu i **wella effeithlonrwydd ar y fferm.**

Byddai'r ymarfer yn cael ei ailadrodd dros gyfnod o 12 mis (dechrau'r hydref) er mwyn cael ymatebion ystyrlon ar gyfer cymariaethau, themâu a thueddiadau a dibenion gwerthuso.

d. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1114)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

e. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1115)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Ymunwyd â'r cyfarfod gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

7. **Corfforaethol**

a. *I ystyried Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2021 / 2026 (HCC 1116)*

b. *I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2023 / 2024 (HCC 1117)*

Cymerwyd bod y naill ddogfen a'r llall wedi'u darllen a'u cyflwyno gan y Prif Weithredwr a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Bwrdd am eu mewnbwn yng nghyfarfod cynllunio Teams a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022.

Roedd llawer wedi newid dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan ystyried y materion yn ymwneud â Brexit, Covid-19, Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd – pob un ohonynt wedi effeithio ar y newid cyflenwad cyfan.

Roedd angen i strwythur cyflawni HCC yn y dyfodol newid i adlewyrchu effeithiau, blaenoriaethau a newidiadau i'r sectorau amaethyddiaeth, manwerthu a gwasanaethau bwyd er mwyn i'r sefydliad wasanaethu'r diwydiant.   Roedd y gwaith hwn wedi dechrau yn ystod 2022 gyda'r

adolygiad gweithredol o'r sefydliad. Cafodd y ddau gynllun drafft eu haddasu yn unol â hynny, gan ganolbwyntio ar wahanol strategaethau a chanlyniadau.

Rhoddodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyflwyniad ar y rhaglenni cyflawni arfaethedig, gweithgareddau, allbynnau, effeithiau a dangosyddion perfformiad allweddol.

Nodwyd bod angen rhagor o waith ar gyllid / cyllidebau ac organogram y Cynllun Gweithredol drafft a byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn yr adrifiad nesaf.

Yn dilyn trafodaeth a chymryd i ystyriaeth y newidiadau arfaethedig fel y nodwyd, câi'r ddau gynllun eu diweddaru a'u cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried ymhellach yng nghyfarfod 2 Mawrth 2023.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

8. I dderbyn a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2023 / 2024 (HCC 1118)

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Câi'r cynllun gwaith ei ddiweddaru maes o law yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad o Bwyllgorau HCC.

9. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu

a. *I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 12 Ionawr 2023*

Cafwyd adroddiad ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)

b. *I fabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor R&D&KE a gynhaliwyd ddydd Mercher 16 Tachwedd 2022 (HCC 1119)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

10. **Papur er gwybodaeth: Ymateb HCC i Asesu Effaith Bosibl Cyfyngiadau Nitrogen ar Gynhyrchu Cig Coch yng Nghymru (HCC 1120)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

11. **Unrhyw fater arall**

*Ariannu*

Nodwyd y byddai'r Swyddogion Gweithredol yn edrych ar wahanol gyfleoedd ariannu gan gynnwys ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a phartneriaethau eraill. Byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am ddatblygiadau.

*Diweddariad bywgraffiadau'r Bwrdd – gwefan Gorfforaethol HCC*

Gofynnwyd i'r Bwrdd edrych ar fywgraffiadau unigol ar wefan Gorfforaethol HCC a hysbysu Owen Roberts am unrhyw newidiadau.

**Gweithredu: Y Bwrdd**

*Crynodebau Incwm Ardoll*

Cytunwyd i ailddechrau rhannu'r Crynodebau Incwm Ardoll misol er gwybodaeth i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

*Marchnad ar gyfer crwyn Defaid ac Ŵyn*

Bu trafod ar y mater uchod. Pwysleisiwyd bod y fasnach croen defaid â Tsieina yn wael ar hyn o bryd. Roedd Defra wrthi'n chwilio am ateb i'r broblem.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams – Dydd Iau 2 Chwefror 2023 am 9.30am.
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 2 Mawrth 2023. Yr amser i'w drefnu eto.

Ymunodd Aelod o'r Bwrdd, Melody Chapman, drwy Teams ar gyfer Eitemau 13a, 13b a 14. Ymadawodd y Swyddogion Gweithredol (ar wahân i'r Prif Weithredwr) â'r cyfarfod.